
















## Manylion y Barbeciw Haf:

### Heddiw yw'r diwrnod olaf i brynu tocynnau!

Mae'r tocynnau i'r barbeciw ar werth heddiw wrth y prif fynedfa am y tro olaf. Os nad ydych yn medru prynu wrth y giât ar ddiwedd y dydd, mae croeso i chi ddod i'r Swyddfa at Mrs Wendy James i brynu yn ystod y dydd. Medrwch dalu gydag arian parod neu gyda cherdyn.

Mae 4 math gwahanol o docyn:

- Selsig: £3.50
- Byrgyrs: £4.50
- Rhost (Porc): £6
- Byrgyr Figan: £4

Bydd rhaid prynu tocyn ymlaen llawn os ydych am fwyta ar noson y barbeciw. Ni fydd tocynnau ar werth ar y noson. Bydd Mynediad am ddim.

### A fedrwch gyfrannu os gwelwch yn dda?

Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 : SALAD
e.e salad cymysg, colslô, salad tatws ayyb (i ddod gyda chi i'r barbeciw ar y noson)

Blwyddyn 3 a 4 : SIOCLED
e.e bariau amlbecyn (i gyrraedd yr ysgol erbyn dydd Mawrth 15fed o Orffennaf)

Blwyddyn 5 a 6 : RHODDION LLIW I'R RAFFL
Dewch â rhoddion lliw coch, glas neu felyn ar gyfer y raffl (i gyrraedd yr ysgol erbyn dydd Mawrth 15fed o Orffennaf) ee teganau, bwydydd, teganau meddal, peli, llyfrau.

### Dolen i'r rhaglen:

Dyma ddolen i'r rhaglen – sy'n llawn gwybodaeth am amseroedd y perfformiadau llwyfan gan y plant, a'r stondinau amrywiol fydd yno.

Barbeciw Haf 2025

## *Summer Barbecue Details:*

### *Today is the final day to buy tickets!*

*Barbecue tickets are on sale today at the main entrance for the last time. If you're unable to buy at the gate at the end of the day, you're welcome to go to the Office and see Mrs Wendy James to buy during the day. You can pay with cash or card.*

*There are 4 different types of ticket:*

- *Sausage: £3.50*
- *Burger: £4.50*
- *Roast (Pork): £6*
- *Vegan Burger: £4*

*Tickets must be bought in advance if you wish to eat at the barbecue evening. No tickets will be available on the night. Entry is free.*

### *Can you contribute, please?*

*Nursery, Reception, Year 1 & 2: SALAD*
*e.g. mixed salad, coleslaw, potato salad, etc. (please bring with you on the evening of the barbecue)*

*Year 3 & 4: CHOCOLATE*
*e.g. multipack bars (to arrive at school by Tuesday, 15th July)*

*Year 5 & 6: COLOURED RAFFLE DONATIONS*
*Please bring in donations in red, blue, or yellow for the raffle (to arrive at school by Tuesday, 15th July) i.e toys, foods, soft toys, balls, books*

### *Programme link:*

*Here is the link to the programme – it's full of information about the timing of the children's stage performances and the various stalls that will be there.*

Barbeciw Haf 2025

## Gwisg ysgol

Fel y soniwyd mewn llythyr ym Mehefin, dyma rannu mwy o wybodaeth parthed ein gwisg ysgol ar gyfer mis Medi.



Mi fydd disgwyliad fod pob plentyn yn gwisgo'r wisg ysgol pob dydd. Rydym wedi ychwanegu un eitem, sef crys-t coch ar gyfer ei wisgo i wneud chwaraeon drwy'r flwyddyn neu mewn tywydd poeth.

Manteision gwisg ysgol:

- Mae'n hyrwyddo cydraddoldeb – mae pawb yn edrych yn debyg, felly llai o bwyslais ar bethau fel dillad drud neu frandiau.
- Mae'n helpu disgyblion i ganolbwyntio ar ddysgu yn hytrach na beth mae pawb yn ei wisgo.



- Mae'n meithrin ymdeimlad o gymuned a pherthyn i'r ysgol.
- Mae'n arbed amser yn y bore – does dim angen meddwl am beth i'w wisgo bob dydd.
- Gall fod yn fwy cost-effeithiol yn y tymor hir na phrynu dillad ffasiynol. Byddwn hefyd yn gwerthu gwisg ysgol ail-law i arbed costau.
- Mae'n gwneud disgyblion yn haws i'w hadnabod, sy'n helpu gyda diogelwch.



- Esgidiau – mae angen i'r esgidiau fod yn rhai gwydn a chyffyrddus, sy'n caniatau i blant chwarae yn ddiogel ynddynt. Hynny yw, dim crocs na sandalau

Cofiwch mai dim ond yr hanner top yw ein gwisg ysgol ni, felly nid yw'n cyfyngu'n ormodol ar fynegiant personol – gall disgyblion ddangos eu steil a'u personoliaeth drwy'r hanner isaf.



Dau gwmni swyddogol yr ysgol yw Ffigar a Cit (Alison Jones gynt) Mae croeso i chi ddefnyddio darparwyr eraill, ond cofiwch fod yn rhaid glynu at y dillad, lliwiau a'r logo cywir.

Bydd stondin gwisg ysgol ail-law yn y Barbeciw Haf hefyd. Bl.6 sy'n gadael – os hoffech gyfrannu eich gwisg ysgol dewch â nhw i'r stondin i'w gwerthu!

## *School Uniform*

*As mentioned in a letter in June, here is some more information about our school uniform for September.*

*There will be an expectation that every child wears school uniform every day. We have added one item: a red t-shirt, which can be worn for PE throughout the year or during hot weather.*

*Benefits of a school uniform:*

- *It promotes equality – everyone looks similar, so there's less focus on expensive clothes or brands.*
- *It helps pupils focus on learning rather than what everyone is wearing.*
- *It fosters a sense of community and belonging to the school.*
- *It saves time in the mornings – no need to think about what to wear each day.*
- *It can be more cost-effective in the long term than buying fashionable clothes. We will also be selling second-hand school uniform to help reduce costs.*
- *It makes pupils easier to identify, which helps with safety.*
- *Shoes – shoes need to be sturdy and comfortable, allowing children to play safely. That means no crocs or sandals, please.*

*Remember, our school uniform only covers the top half, so it doesn't overly restrict personal expression – pupils can show their style and personality through their choice of bottom half.*

*The school's two official suppliers are Ffigar and Cit (formerly Alison Jones). You are welcome to use other providers, but please make sure you stick to the correct clothing, colours, and logo.*

*There will also be a second-hand uniform stall at the Summer Barbecue. Year 6 leavers – if you'd like to donate your school uniform, please bring it to the stall to be sold!*

Ysgol Gymraeg Archives - Dillad CIT Clothing

Ysgol Gymraeg Aberystwyth - Ffigar



## Caban Banana Gareth

Yn ystod y flwyddyn bu rhaglen deledu Caban Banana Gareth yn ffilmio yn yr ysgol. Mi fydd y rhaglenni 5 munud yn dechrau ar Cyw Awst 25$^{ain}$ ac yn cael eu dangos bob Dydd Llun a Mercher am 7 wythnos, ac yna bob Dydd Llun o Rhagfyr 1$^{af}$ ymlaen. Oherwydd natur y rhaglenni sydd yn sydyn ac yn torri o un lleoliad i'r llall, does dim dyddiad pendant i bob ysgol, ond mi fydd y penodau i gyd ar gael ar S4C Clic ac iplayer i chi fwynhau.

## *Caban Banana Gareth*

*During the year, the television programme Caban Banana Gareth filmed at the school. The 5-minute episodes will begin airing on Cyw from August 25$^{th}$ and will be shown every Monday and Wednesday for 7 weeks, and then every Monday from December 1$^{st}$ onwards.*
*Due to the nature of the programme – which moves quickly and cuts between different locations – there isn't a specific date for each school's appearance. However, all episodes will be available to enjoy on S4C Clic and iPlayer.*

---




## Sialens Ddarllen yr Haf

**Ymunwch NAWR!**
Cymerwch ran yn Sialens Ddarllen yr Haf!

Croeso i'r Ardd o Straeon… lle mae creaduriaid hudolus, straeon gwyllt, a rhyfeddodau natur yn dod yn fyw.

Darganfyddwch lyfrau newydd gwych, datgloi gwobrau ar hyd y ffordd, a chyflawnwch rywbeth anhygoel yr haf hwn.

Sialens Ddarllen yr Haf Cymru

## *Summer Reading Challenge*

***Join NOW!***
*Take part in the Summer Reading Challenge!*

*Welcome to the Marvellous Story Garden… where magical creatures, wild tales, and nature's wonders come to life.*

*Discover brilliant new books, unlock rewards along the way, and achieve something amazing this summer.*

*Summer Reading Challenge Cymru*

---




## Gwybodaeth ychwanegol

Atodaf wybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y llythyr hwn – maent yn bosteri am ddigwyddiadau lleol amrywiol i'ch cynorthwyo chi fel rhieni a gofalwyr gyda gweithgareddau dros yr haf.

## *Additional information*

*I am attaching additional information at the end of this letter - they are posters about various local events to assist you as parents and carers with activities over the summer.*

---

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.
Instagram

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram

---




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

| **Dyddiadau pwysig Tymor yr haf:** | ***Summer term important dates:*** |
| --- | --- |
| • Barbeciw Haf y G.Rh.A : Gorffennaf 17eg<br>• Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 18fed<br>• Blwyddyn ysgol newydd yn cychwyn : Medi 3ydd | • *PTA Summer Barbeque : July 17th*<br>• *Last day of term : July 18th*<br>• *New school year begins : September 3rd* |

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**11/07/2025**
[www.ysgolgymraeg.cymru](www.ysgolgymraeg.cymru)




CreAdiGol
Gweithdai amrywiol yng Nghanolfan Arad Goch
Ydych chi ym mlynyddoedd 2 i 6 ac yn chwilio am weithgareddau creadigol a chyffrous i wneud drwy'r Gymraeg yn ystod gwyliau'r Haf?
Are you in school years 2 to 6? Looking for exciting creative activities to do through the medium of Welsh?
9:30yb - 3:30yp yng Nghanolfan Arad Goch ar y dyddiau canlynol:
9:30am - 3:30pm at Canolfan Arad Goch on the following days:
13/08/25 27/08/25
14/08/25 28/08/25
£10 y diwrnod / £10 a day
Cysylltwch â / Contact post@aradgoch.org - 01970 617998 i archebu lle / to book a place
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government
Cwmni Theatr Arad Goch
Mewn cydweithrediad gyda
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre


The Reading Agency
Sialens Ddarllen Yr Haf
Summer Reading Challenge
Darparwyd drwy gydweithrediad â llyfrgelloedd
Delivered in partnership with libraries
2025
Gardd o Straeon
Anturiaethau ym Myd Natur a'r Awyr Agored
Story Garden
Adventures in Nature and the Great Outdoors
sialensddarllenyrhaf.org.uk
summerreadingchallenge.org.uk
Dewch i fwynhau'r hwyl gyda ni yn eich Llyfrgell leol rhwng Gorffennaf 5ed a Medi 27ain
Come an enjoy the fun with us at your local Library between July 5th and September 27th
Llyfrgell Ceredigion Library
Llyfrgell Ceredigion Library


CAMPUS SPORT
21AIN - 25AIN GORFFENNAF
28AIN GORFFENNAF - 1AF AWST
Am ddim ond £140 yr wythnos a 10% i ffwrdd os byddwch yn archebu'r ddwy wythnos!!
Haf o chwaraeon
Wythnos o chwaraeon yn y ganolfan chwaraeon, cymryd rhan mewn nifer o chwaraeon fel
• Pêl-fasged
• Nofio
• Pêl-droed
• Badminton
• Athletaua
• llawer mwy!
COFRESTRWCH NAWR!!


CAMPUS SPORT
JULY 21ST -25TH
JULY 28TH - AUGUST 1ST
For just £140 a week & 10% off if you book both week!!
A summer of sport
A week of sport at the sport centre, take part in a number of sports such as
• Basketball
• Swimming
• Football
• Badminton
• Athletics
• and so much more!
REGISTER NOW!!

# Haf o Digwyddiadau Gwyddoniaeth!

The Big Science Project

## Rydyn ni yng Ngheredigion!

Ymunwch â ni am wersylloedd gwyddoniaeth dros yr Haf, diwrnodau llawn gydag amrywiaeth o themâu gwyddoniaeth gan gynnwys ...





**PENRHYNCOCH:**
Cwest Deinosoriaid — Gorffennaf 29ain
Cemeg Lliwgar — Awst 22ain
Rhyfeddodau Bywyd Gwyllt — Awst 27ain

**ABERAERON:**
Cwest Deinosoriaid — Awst 6ed
Gwyddoniaeth Fforensig — Awst 18fed
Rhyfeddodau Bywyd Gwyllt — Awst 27ain

**ABERTEIFI:**
Microbau Bach — Gorffennaf 28ain
Gofod a Grymoedd — Awst 14eg
Cemeg Lliwgar — Awst 26ain

**LLANBEDR PONT STEFFAN:**
Cwest Deinosoriaid — Gorffennaf 30ain
Rhyfeddodau Bywyd Gwyllt — Awst 11eg

£39 y plentyn (£7.09 yr awr)

Pob Digwyddiad: 9.30am - 3.00pm

Addas ar gyfer oedrannau 5-12
Mae archebu ymlaen llaw yn hanfodol

(Digwyddiadau gollwng a chasglu)

Am ragor o wybodaeth ac i archebu ewch i www.thebigscienceproject.co.uk

# Summer of Science Events!

The Big Science Project

## We're in Ceredigion!

Join us for full day science camps with a variety of science themes including ...





**PENRHYNCOCH:**
Dino Quest — July 29th
Colourful Chemistry — August 22nd
Wildlife Wonders — August 27th

**ABERAERON:**
Dino Quest — August 6th
Forensic Science — August 18th
Wildlife Wonders — August 27th

**CARDIGAN:**
Mini Microbes — July 28th
Space & Forces — August 14th
Colourful Chemistry — August 26th

**LAMPETER:**
Dino Quest — July 30th
Wildlife Wonders — August 11th

£39 per child (That's £7.09 per hour)

All Events: 9.30am - 3.00pm

Suitable for ages 5-12
Pre booking is essential

DROP OFF/PICK UP ONLY

For more information & to book visit www.thebigscienceproject.co.uk

# Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
## Parenting and Family Support

RAY Ceredigion

# Diwrnod Hwyl a Chwarae
# Ray Ceredigion

FUN!

**DYDD MERCHER 6ED AWST**

Bysiau **AM DDIM** i Aberaeron (Cae Sgwâr)

**Bysiau yn gadael o:**
Llwyn Yr Eos, Penparcau 10:30yb
Maes Parcio Pwll Nofio Aberteifi 10:30yb

Bws yn gadael Aberaeron am 3yp

*Bydd angen cadw seddi o flaen llaw, byddant yn llenwi yn gyflym*

**Gwybodaeth/ I gadw lle**

**Cysylltwch â:**

**Llwyn Yr Eos, Penparcau**
Jo-Alice - 07891 321 778
Debbie - 07891 321 777

**Aberteifi**
Emma - 07966 312 076

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Dechrau'n Deg Flying Start

# Rhianta a Chefnogaeth i Deuluoedd
## Parenting and Family Support

RAY Ceredigion

# Play Day
# Ray Ceredigion

FUN!

**WEDNESDAY 6TH AUGUST**

**FREE** bus to Aberaeron (Square Field)

**Buses leaving from:**
Llwyn Yr Eos, Penparcau 10:30am
Cardigan Swimming Pool Car Park 10:30am

Return bus leaves Aberaeron at 3pm

*Seats to be booked in advance, spaces fill quickly*

**Booking information**

**Contact:**

**Llwyn Yr Eos, Penparcau**
Jo-Alice - 07891 321 778
Debbie - 07891 321 777

**Cardigan**
Emma - 07966 312 076

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Dechrau'n Deg Flying Start


CANOLFAN DEULUOL Borth FAMILY CENTRE
CARNIFAL Y BORTH
Borth Community Hub Hwb Cymunedol Borth
A LLAWER MWY
CYSTADLEUAETH LLIWIO
DWIRNOD
HWYL I'R TEULU
DYDD LLUN
GORFENNAF 29AIN
- 10YB - 2YB -
YSGOL CRAIG YR WYLFA
SY24 5NJ
RNLI GWASANAETHAU TAN
GWEITH-GAREDDAU S.T.E.M
STONDIAU BARBECIW PABELL TE
HWYL AM Y TEULU I GYD
PICNIC Y TEDI BERS


CANOLFAN DEULUOL Borth FAMILY CENTRE
BORTH CARNIVAL
Borth Community Hub Hwb Cymunedol Borth
FUN FOR THE WHOLE FAMILY
COLOURING COMPETITION
FAMILY
FUN DAY
TUESDAY
29TH JULY
- 10AM TO 2PM -
BORTH SCHOOL
SY24 5NJ
RNLI FIRE SERVICE LIFEGAURDS
STALLS BARBEQUE TEA-TENT
S.T.E.M ACTIVITES
TEDDY BEAR'S PICNIC


SIOE DEITHIOL
YR HAF 2025
DIWRNODAU HWYL – GWEITHGAREDDAU AM DDIM!
Canolfan Hamdden Plascrug – Dydd Gwener, 25ain o Orffennaf
Canolfan Hamdden Aberteifi – Dydd Mawrth, 5ed o Awst
Hyb Llesiant Llambed – Dydd Mercher, 20fed o Awst
YMUNWCH Â NI AM WEITHGAREDDAU, CREFFTAU A STONDINAU GWYBODAETH I BLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD
10Y.B TAN 14:00 Y.H
GWEITHGAREDDAU I GYD AM DDIM!
· Gweithgareddau i'w cynnwys
· Celf a Chrefft ·
· Consolau Gemau ·
· Rhowch gynnig ar Golff ·
· Peintio Wynebau ·
· Stondinau Gwybodaeth gan gynnwys HCT, Barod, Heddlu Dyfed Powys
a llawer mwy!
Am fwy o wybodaeth ebostiwch:
Porthcymorthcynnar@ceredigion.gov.uk
Cyngor Sir CEREDIGION County Council


SUMMER
ROADSHOW 2025
FREE ACTIVITY DAYS
Plascrug Leisure Centre – Friday the 25th of July
Cardigan Leisure Centre – Tuesday 5th of August
Lampeter Wellbeing Hub – Wednesday 20th of August
JOIN US FOR FREE ACTIVITIES, CRAFTS AND INFORMATION STANDS FOR CHILDREN, YOUNG PEOPLE AND FAMILIES! 10:00A.M – 14:00P.M
· Arts and Crafts ·
· Inflatable Games ·
· Games Consoles ·
· Try Golf ·
· Face Painting ·
· Information Stands including HCT, Barod, Dyfed Powys Police
and much more!
For more information please email:
Porthcymorthcynnar@ceredigion.gov.uk
Cyngor Sir CEREDIGION County Council


RAY Ceredigion
RAY PLAY DAY / DYDD CHWARAE RAY
Wednesday 6th August 2025
Dydd Mercher 6fed Awst 2025
11.30—3.30 Square Field / Cae Sgwâr Aberaeron
FREE ENTRY
MYNEDIAD AM DDIM
RAY MADE MY DAY
Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
This year we will welcome Rocio Cifuentes the Children's Commissioner for Wales
Eleni byddwn yn croesawu Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru
Gweithgareddau am ddim i blant o bob oedran
Diwrnod allan i'r teulu
Dros 30 o wahanol stondinau a gweithgareddau
Free activities for children of all ages
Family Friendly day out
Over 30 different stands and free activities
If you are an organisation wanting to book a stand at RAY Play Day please visit www.rayceredigion.org.uk and complete the booking form and download information pack
Os ydych yn fudiad sydd eisiau archebu stondin ar Ddiwrnod Chwarae RAY ewch i www.rayceredigion.org.uk a chwblhewch y ffurflen archebu a lawrlwythwch y pecyn
Dathlu Dydd Chwarae Cenedlaethol
Celebrating UK National Play Day
play day


STIKINS® Name Labels
SIMPLY STICK IN & STAY IN – NO SEWING & NO IRONING
• Arbed amser!
• Llai o ddillad coll!
ARCHEBU O
ORDER FROM
WWW.STIKINS.CO.UK
OVER 12,000 INDEPENDENT REVIEWS
Defnyddiwch y côd 26273 wrth dalu er mwyn elwa 30% o gomisiwn i'r Ysgol
Use code 26273 at checkout to earn 30% commission for the School
Save time and money with just one label
for clothes, shoes, lunch boxes, and all school items


STIKINS® Name Labels
MILLIONS IN USE
SUPPLIED SINCE 2003
Un label enw aml-bwrpas i'w ddefnyddio ar gyfer sawl eitem gwahanol, gan gynnwys dillad ac esgidiau.
Stikins®
Maint Cywir/Actual Size
Stikins® Name Labels
One easy name label with multiple uses for all kinds of personal items, including clothes and shoes.
We print labels every working day up to 3pm & send them out same day by first class post.
120 STIKINS® Name Labels £18.00
90 STIKINS® Name Labels £15.00
60 STIKINS® Name Labels £12.00
30 STIKINS® Name Labels £9.00
2025 prices include VAT & UK delivery
Cofiwch defnyddio'r côd yma wrth dalu
Rhif Codi Arian / Fundraising Number
26273
If your school has a fundraising number, please use it when you order. (Schools earn 30% commission)
Order online at www.stikins.co.uk - Pay by Credit/Debit Card, PayPal, or Apple Pay
Order by phone on 01270 668076 - Pay by Credit/Debit Card